# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 6 Mawrth 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5566

## 194

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1-6, 8 a 9. Cafodd cwestiynau 3 a 4 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd. Ni ofynnwyd cwestiwn 7. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

Dechreuodd yr eitem am 14.19

Gofynnwyd cwestiynau 1-3 a 5-6. Tynnwyd cwestiwn 4 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 15.07

Gofynnwyd y 4 cwestiwn.

## 4 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.20

**Gofyn i'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gydag Undeb Rygbi Cymru yng ngoleuni adroddiadau ynghylch ailwampio mawr ar y gêm broffesiynol yng Nghymru?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.33

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau 90 eiliad.

## 6 Cynnig i amrywio'r drefn ystyried ar gyfer gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Ombwdswmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 15.34

**NDM6981** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn a ganlyn:

a) Adran 2;

b) Atodlen 1;

c) Adrannau 3-14;

d) Atodlen 2;

e) Adrannau 15-30;

f) Atodlen 3;

g) Adrannau 31-41;

h) Atodlen 4;

i) Adrannau 42-74;

j) Atodlen 5;

k) Adrannau 75-80;

l) Adran 1;

m) Teitl hir.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.34

**NDM6983** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, sef Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2019.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl Plaid Cymru - Adeiladu Tai Cymdeithasol yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 16.10

**NDM6978** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu bod angen cynnydd sylweddol yn y raddfa adeiladu tai cymdeithasol yng Nghymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Dadl ar ddeiseb P-05-849 Dylai pob dyn yng Nghymru gael mynediad drwy'r GIG at y profion diagnostig gorau posibl ar gyfer canser y prostad

Dechreuodd yr eitem am 16.55

**NDM6982** David J. Rowlands (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi’r ddeiseb ‘P-05-849 Dylai pob dyn yng Nghymru gael mynediad drwy'r GIG at y profion diagnostig gorau posibl ar gyfer canser y prostad’ a gasglodd 6,345 o lofnodion.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 10 Cyfnod pleidleisio

Nid oedd cyfnod pleidleisio.

## 11 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.31

**NDM6980 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**

Gwastatir Gwent: Tirwedd Unigryw a Hanesyddol

Daeth y cyfarfod i ben am 17.56

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2019**